# LLOYD, ISAAC SAMUEL ('Glan Rhyddallt '; 1875 - 1961), chwarelwr, bardd, a llenor

**Enw:** Isaac Samuel Lloyd
**Ffugenw:** Glan Rhyddallt
**Dyddiad geni:** 1875
**Dyddiad marw:** 1961
**Priod:** Margaret Lloyd (née Williams)
**Plentyn:** Mary Lloyd Williams (née Lloyd)
**Rhiant:** Mary Lloyd (née Hughes)
**Rhiant:** William Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** chwarelwr, bardd, a llenor
**Maes gweithgaredd:** Diwydiant a Busnes; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
**Awdur:** Evan David Jones

Ganwyd 29 Mehefin 1875 yn y T Newydd, Clegyr, Llanberis, Sir Gaernarfon, (Penrallt oedd enw gwreiddiol y t ), yn fab i William a Mary (ganwyd Hughes) Lloyd. Addysgwyd ef yn ysgol elfennol Llanberis ond ychydig iawn o gyfle a gafodd, gan i'w fam farw pan nad oedd ef ond rhyw wyth oed, ac hyd nes ei fod yn rhyw drigain oed bu'n gweithio yn y chwarel. Priododd Margaret merch John a Margaret Williams yng nghapel MC Llanrug, 9 Tachwedd 1894 a bu iddynt ddau fab a dwy ferch. Ar ôl priodi ymdrechodd i'w ddiwyllio'i hun, gan ddarllen yn helaeth a meistroli'r cynganeddion. Cyfansoddodd gannoedd o englynion a cherddi. Urddwyd ef yn fardd yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli yn 1903 wrth yr enw yng Ngorsedd ' Glan Rhyddallt '. Bu'n golofnydd wythnosol i'r *Herald Cymraeg* o 1931 hyd ei farw. Yr oedd ei ferch wedi dechrau ei cholofn dan yr enw ' Mari Lewis ' flwyddyn o'i flaen. Bu'n gohebu llawer â Chymry America ac ysgrifennodd hanes Goronwy Owen, *Goronwy'r Alltud* (1947). Bu farw yn Ysbyty Gallt y Sil, Caernarfon, 7 Gorffennaf 1961 a chladdwyd ef ym mynwent eglwys Llanrug ar 11 Gorffennaf.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau

Gwybodaeth gan ei ferch, Mary Lloyd Williams

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733293

**Dyddiad cyhoeddi:** 1997

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu